

Asesiad Strwythuredig 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3433A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ynghylch a yw defnydd y sefydliadau hynny o'u hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn	4
Cyd-destun y cefndir	5
Negeseuon allweddol	6
Argymhellion	7

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu	11
Trefniadau cynllunio strategol	14
Rheoli adnoddau ariannol	17
Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill	21

Atodiadau

Atodiad 1—Dull archwilio	26
Atodiad 2—Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio	29

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2022 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 2 Cynhaliwyd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus, roedd cyrff iechyd hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.
- 3 Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys ystyried trefniadau llywodraethu y sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, a'r ystad. Manylir ar y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn gryno yn **Atodiad 1**.
- 4 Drwy gyflawni ein gwaith archwilio arferol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), daethom yn ymwybodol o bryderon cynyddol ynghylch cydlynoldeb y bwrdd¹ a pherthnasoedd gwaith lefel uwch. Mae natur a graddfa'r pryderon wedi arwain yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiad lefel uchel brys â phwyslais ar effeithiolrwydd y bwrdd. Adroddir canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ar wahân ac rydym wedi addasu cynnwys yr adroddiad asesu strwythuredig hwn er mwyn osgoi unrhyw sylw a ddyblygir ynghylch materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y bwrdd.

¹ Mae'r term 'Aelodau'r Bwrdd' yn cynnwys aelodau Annibynnol, aelodau gohebol ac aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae'r term 'Bwrdd' yn cynrychioli grŵp cyfunol aelodau'r Bwrdd. Mae'r term 'Bwrdd Iechyd' yn ymwneud â'r sefydliad cyfan. Mae 'Tîm Gweithredol' yn cynrychioli'r grŵp o Gyfarwyddwyr Gweithredol uchaf yn y Bwrdd Iechyd.

Cyd-destun y cefndir

- 5 Bu rhai heriau hirsefydlog gan y Bwrdd Iechyd, a uwchgyfeiriwyd i'r categori 'Mesurau Arbennig' uchaf ar fframwaith uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru yn 2015. Gwnaeth Llywodraeth Cymru isgyfeirio'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2020, yna dosbarthwyd pum maes fel ymyrraeth wedi ei thargedu, sef:
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl;
 - Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;
 - Ysbyty Glan Clwyd;
 - Arweinyddiaeth; ac
 - Ymgysylltu.
- Ychwanegwyd Ysbyty Glan Clwyd at y meysydd 'ymyrraeth wedi ei thargedu' ym mis Mehefin 2022 yn dilyn materion sylweddol a nodwyd yn ymwneud ag Adran Achosion Brys a gwasanaethau fasgwlaidd yr ysbyty. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn wynebu pwysau digynsail mewn gwasanaethau gofal heb ei drefnu ac mae ganddo restrau aros hir am ei wasanaethau gofal a gynlluniwyd.
- 6 Ym mis Awst 2022, nododd archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd wallau sylweddol. O ganlyniad i'r gwallau ac anallu'r Bwrdd Iechyd i ymgymryd â gwaith pellach, roedd y farn archwilio yn amodol ar sail gwir a theg, a rheoleidd-dra. Comisiynodd y Bwrdd Iechyd adolygiad allanol i ymchwilio ymhellach i achos yr anghywirdebau a nodwyd yn yr archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd. Mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi dod i ben, ac oherwydd ei ganfyddiadau, cynhaliodd Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ymchwiliadau pellach.
- 7 Mae angen ystyried y canfyddiadau yn yr adroddiad asesu strwythuredig hwn yng nghyd-destun yr adroddiad ar wahân y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ei gyhoeddi ar effeithiolrwydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Disgrifia'r adroddiad hwnnw lefel bryderus o gamweithredu yn y ffordd y mae'r bwrdd ehangach a'r tîm gweithredol yn gweithio. Mae'r problemau hyn gyda pherthnasau gwaith yn cyfuno i gyfaddawdu gallu'r bwrdd yn sylfaenol i gydweithio ac i fynd i'r afael yn golegol â'r heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Dychwelodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd i 'Fesurau Arbennig' ym mis Chwefror 2023.

Negeseuon allweddol

- 8 Yn gyffredinol, canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau a risgiau sylweddol, yn enwedig mewn cysylltiad â rhai agweddau ar ansawdd gwasanaethau, perfformiad, cyllid, digidol ac ystadau. Er ei fod yn cryfhau dulliau cynllunio ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–23 a mireinio rhai trefniadau llywodraethu, mae llawer mwy i'w wneud.**
- 9 Mae pryderon hirsefydlog mewn nifer o feysydd gwasanaeth yn ogystal â'n barnau amodol ar gyfrifon 2021–22 a phryderon sylweddol a nodwyd gennym o ran effeithiolrwydd y bwrdd. Mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chymeradwyo strategaeth glinigol deng mlynedd ac mae angen iddo ddatblygu cynlluniau clinigol galluogi a'r strwythur gynhaliol i'w cyflawni yn awr. Er bod trefniadau cynllunio tymor canolig y Bwrdd Iechyd wedi gwella yn gyffredinol, nid oedd yn gallu llunio Cynllun cymeradwy ar gyfer 2022–2025. Yn unol â gofynion diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bwrdd Iechyd, mae bellach yn datblygu cynllun blynyddol, yn hytrach na chynllun tair blynedd ar gyfer 2023–24. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill gan gynnwys digidol, pobl ac ystadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo sicrhau bod ei gynlluniau galluogi yn gwbl gyson â'r strategaeth glinigol a'u bod yn manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.
- 10 Oherwydd y diffyg a ddygwyd ymlaen o'r ddwy flynedd flaenorol, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019 a 2022. Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2022–23 yn cynnwys rhagdybiaethau cyllideb rhesymol. Fodd bynnag, araf oedd cynnydd y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â tharged arbedion 2022–23, sef £35 miliwn. Mae'r cynlluniau arbedion ac adfer ariannol ar gyfer 2023–24 yn annigonol ar hyn o bryd ac maent yn datblygu yn araf. O ganlyniad i hynny, mae risg y gallai ei ddiffyg sylfaenol sylweddol effeithio ar y nod o gyflawni targedau ariannol y flwyddyn nesaf. Byddai'r sefyllfa hon yn gwaethygu'n sylweddol pe byddai'r cyllid ymyrryd ychwanegol wedi ei dargedu gan Lywodraeth Cymru, sef £82 miliwn, yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn nesaf. Y naill ffordd neu'r llall, mae angen dull cryfach ar gyfer adfer ariannol, canolbwyntio ar arbedion cylchol efallai y bydd angen penderfyniadau dadfuddsoddi anodd arnynt. Rydym hefyd wedi nodi'r lefel uchel o hepgoriadau tendr sengl a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd, sy'n codi pryderon ynghylch cadernid rheolaethau ariannol a threfniadau cynllunio ariannol gweithredol y Bwrdd Iechyd.
- 11 Nododd ein harchwiliad o gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd wallau cyfrifyddu a gwendidau sylweddol, gan arwain yr Archwilydd Cyffredinol i amodi ei farn 'gwir a theg' a 'rheoleidd-dra'. Mewn ymateb i'r materion hyn, comisiynwyd cwmni ymgynghori Ernst & Young i ymgymryd â gwaith i nodi'r rhesymau dros y gwallau a nodwyd. Yn dilyn ei waith, mae nifer bach o uwch-staff yn yr Adran Gyllid wedi cymryd cyfnod o absenoldeb yn ystod ymchwiliadau pellach gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a oedd yn parhau i fynd rhagddynt ar adeg paratoi'r adroddiad hwn.

- 12 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd fodel gweithredu newydd yn ystod 2022. Er bod gan y strwythur newydd hwn y potensial i gryfhau trefniadau y sefydliad, bu heriau wrth ei roi ar waith. Bydd angen gwaith parhaus i weithredu'r model newydd yn llawn ac i ddechrau sicrhau ei fuddion arfaethedig.
- 13 Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu i gryfhau'r systemau sicrwydd, fodd bynnag, mae gwendidau sylweddol sy'n parhau. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd lechyd wedi adnewyddu ei strategaeth risg ar gyfer 2022–25 a'i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Fodd bynnag, mae llawer o'r risgiau yn rhai hirsefydlog, sy'n nodi nad yw'r dull rheoli risgiau a'r camau lliniaru yn cael yr effaith a ddymunir.
- 14 Mewn cysylltiad â safon a pherfformiad, mae pryderon hirsefydlog sy'n parhau ynghylch rhai agweddau ar wasanaethau ieuchyd meddwl ac mae pryderon penodol hefyd sy'n ymwneud â gwasanaethau fasgwlaidd ac adran achosion brys Ysbyty Glan Clwyd. Yn yr un modd, o ystyried y perfformiad gofal wedi ei drefnu a gofal heb ei drefnu presennol a'r perfformiad rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau canser a gwasanaethau gofal llygaid sy'n gwaethygu, mae angen sicrhau bod y gwaith adrodd yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith camau gwella.
- 15 Yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd lechyd ddiwylliant adrodd agored mewn cysylltiad â digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol. Ond mae lle i'r Bwrdd lechyd ddadansoddi a dysgu yn well o ddigwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol. Canfuom hefyd fod angen sicrhau gwaith adrodd mwy cywir ar nifer y cwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y Bwrdd lechyd.
- 16 Er bod gan y Bwrdd lechyd amrywiaeth o wasanaethau cymorth llesiant staff ar waith, mae angen mwy o bwyslais ar werthuso eu heffaith er mwyn llywio buddsoddiad yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o gymharu â'i strategaeth ddigidol a'i gynlluniau dilynol. Fodd bynnag, mae materion darparu adnoddau hirsefydlog yn rhwystro'r hyn a gyflawnir, yn lleol ac yn genedlaethol.
- 17 Mae ystad y Bwrdd lechyd o dan bwysau oherwydd bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu y gallai sawl rhaglen allweddol fod 'mewn perygl'. Mae'r strategaeth ystadau hirddisgwyliedig yn nodi'n glir raddau yr her a'r risgiau. Yn awr, mae angen goruchwyliaeth barhaus â phwyslais ar y graddau y mae'r strategaeth hon yn mynd i'r afael â risgiau'r ystadau ac yn cefnogi modelau gofal newydd.

Argymhellion

- 18 Dengys **Arddangosyn 1** ein hargymhellion. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 2**.

Arddangosyn 1: Argymhellion Asesiad Strwythuredig 2022

Adolygiad a lle mae angen cryfhau camau lliniaru risgiau

- A1 Er y newidiadau diweddar i drefniadau risg strategol a chorfforaethol y Bwrdd lechyd, nid yw'r sgoriau risg yn gostwng mewn rhai meysydd allweddol. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r camau lliniaru ar y gofrestr risg gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith a fwriedir.

Adolygu gwaith adrodd ar sicrwydd rheoli perfformiad

- A2 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i fireinio'r modd yr adroddir ar berfformiad i'r bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau ynghylch ansawdd yr adroddiad ar berfformiad a'r graddau y bydd y camau gweithredu a noder yn arwain at y gwelliannau a fwriedir. Dylai'r Bwrdd lechyd wella ei broses o adrodd ar sicrwydd perfformiad drwy ganolbwyntio'n fwy ar effaith y gweithredoedd gwella perfformiad.

Sicrhau cywirdeb wrth adrodd ffigyrau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- A3 Bu anghysondeb rhwng y ffigyrau cwynion a adroddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Bwrdd lechyd a ffigyrau'r Bwrdd lechyd ei hun mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Er i'r Bwrdd lechyd gywiro hyn yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2021–22, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau nad yw anghysondebau o'r fath yn digwydd eto. Dylai'r Bwrdd lechyd ddilysu a gwirio nifer y cwynion ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol.

Adolygu polisiau y Bwrdd lechyd

- A4 Mae gan y Bwrdd lechyd nifer sylweddol o bolisiau sy'n cael eu hadnewyddu'n hwyr, sy'n rhoi'r sefydliad mewn perygl oherwydd risgiau sefydliadol a gweinyddol. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu a diweddarau polisiau y Bwrdd lechyd, gan roi blaenoriaeth i bolisiau pwysig iawn yn gyntaf, gan gynnwys y polisi ar bolisiau.

Adolygu'r traciwr argymhellion archwilio

- A5 Manylion cyfyngedig y mae'r traciwr a'r adroddiad argymhellion archwilio yn eu darparu yn eu fformat presennol, yn enwedig o amgylch y camau yr ystyrir eu bod wedi eu cwblhau. Dylai'r Bwrdd lechyd weithio gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio i adolygu fformat y traciwr a'r adroddiad archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o wybodaeth i roi sicrwydd.

Rhoi'r model gweithredu newydd ar waith

A6 Dylai'r Bwrdd lechyd gwblhau'r broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith ar frys, yn enwedig o ran recriwtio deiliaid swyddi o bwys a lleihau'r ddibyniaeth ar benodiadau interim.

Datblygu cynllun cyflawni clinigol ategol

A7 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu strategaeth glinigol ar gyfer ei wasanaethau, fodd bynnag, nid oes manylion digonol am sut y bydd yn cael ei rhoi ar waith. Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun/cynlluniau cyflawni clinigol ategol a strwythurau cyflawni er mwyn siapio a rhoi modelau gwasanaeth cynaliadwy ar waith. Dylai cynlluniau clinigol lywio'r gweithlu, yr ystad, yr adnoddau ariannol, a'r broses o gynllunio gwasanaethau digidol.

Adrodd ar effaith mentrau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth

A8 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom ar y modd y mae'r Bwrdd lechyd yn rhoi gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ar waith yn weithredol yn ei wasanaethau, gan fanteisio gymaint â phosibl ar werth. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adroddiadau ar ei raglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd.

Rhoi dulliau adfer ariannol ar waith ar frys i gryfhau'r sefyllfa ariannol

A9 Ym mis Ionawr 2023, nid yw'r Bwrdd lechyd ar y trywydd iawn gyda'i gynllun arbedion presennol, ac mae ei gynnydd â'r cynllun arbedion ar gyfer 2023–24 yn araf. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud yr hyn a ganlyn:

- paratoi rhaglenni adfer ariannol priodol ar frys ar gyfer gweddill y flwyddyn hon a'r flwyddyn ariannol nesaf.
- adolygu dewisiadau ar gyfer dadfuddsoddi yn yr ystad a'r gwasanaeth (h.y., lle nad yw gwasanaethau'n dangos effaith a chanlyniadau cleifion digonol).
- targedu buddsoddiadau digidol mewn meysydd lle mae buddion busnes clir, h.y., lle gellir defnyddio digidol i ryddhau effeithlonrwydd gwasanaeth a/neu enillion ansawdd mewn mannau eraill.
- cyflwyno systemau adrodd a goruchwyllo cryfach ar y sefyllfa ariannol tymor canolig, y strategaeth ariannol a'r dulliau adfer.

Cyflwyno cynllunio a rheolaeth ariannol cryfach i leihau'r ddibyniaeth ar hepgoriadau tendr sengl

A10 Mae gan y Bwrdd lechyd hanes o ddefnydd sylweddol a chynyddol o hepgoriadau tendr sengl. Dylai'r Bwrdd lechyd wella'r broses o gynllunio ar

gyfer caffael a chryfhau'r rheolaethau ariannol ar gyfer hepgoriadau tendr sengl.

Sicrhau effeithiolrwydd y gwasanaethau llesiant staff

A11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi llesiant y staff. Fodd bynnag, nid yw'n cynnal digon o werthusiadau ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith ei wasanaethau llesiant staff er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

Gwella goruchwyliaeth ariannol a pherfformiad ar gyfer digidol ac ystadau

A12 Mae angen rhoi trefniadau ar waith i ddeall effaith strategaethau digidol ac ystadau, yn ogystal â dichonoldeb ariannol y strategaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:

- adolygu unrhyw fylchau ariannu yn y strategaethau digidol ac ystadau i benderfynu a ydynt yn ymarferol yn ariannol. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor perthnasol ar ganfyddiadau'r adolygiad dichonoldeb ariannol a sut y bydd unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli.
- cyflwyno adroddiadau pwyllgor cyfnodol sy'n canolbwyntio yr effaith y mae ei strategaethau digidol ac ystadau yn ei chael ar y sefydliad yn ogystal â'r camau sydd wedi eu cwblhau.

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu

- 19 Gan nodi ein bod wedi adrodd ar wahân ar effeithiolrwydd y Bwrdd, mae adran 'trefniadau llywodraethu' eleni yn canolbwyntio ar systemau sicrwydd allweddol ac agweddau penodol ar ddylunio sefydliadol.
- 20 Canfuom **er bod rhywfaint o gynnydd, fod angen i systemau sicrwydd gefnogi gwelliant yn fwy effeithiol a bod angen rhoi'r model gweithredu newydd ar waith yn llawn, a bod angen gwneud hynny ar frys.**

Systemau sicrwydd

- 21 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwyllo ac yn craffu ar risgiau sefydliadol, perfformiad, ac ansawdd y gwasanaethau, gan eu herio nhw. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
 - a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol ar waith, a adolygir yn weithredol ac y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdano;
 - a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
 - a yw'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwilio ac i'w hadolygu nhw.
- 22 Canfuom **er bod y Bwrdd lechyd yn gweithredu i gryfhau rhai systemau sicrwydd, fod gwendidau sylweddol yn parhau. Gall hyn arwain at ddiffyg sicrwydd bod risgiau a heriau perfformiad sylweddol a pharhaus yn cael sylw a bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.**
- 23 Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd lechyd wedi adnewyddu ei strategaeth risg ar gyfer 2022–25 a'i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Noda ein hadolygiad fod y risgiau yn y Fframwaith yn adlewyrchu'r prif heriau y mae'r Bwrdd lechyd yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r Grŵp Rheoli Risgiau yn adolygu'r risgiau hyn bob chwarter. Mae risgiau cyfredol sylweddol y Bwrdd o ran perfformiad, ansawdd, breuder y gweithlu, a chyllid yn cyflwyno rhagolwg heriol i'r Bwrdd lechyd. Mae rhai risgiau a chanddynt sgôr uchel sydd wedi bod ar y gofrestr ers cryn amser. Mewn rhai achosion, nid yw'n ymddangos bod y llw o gamau a gymerwyd i liniaru'r risgiau wedi gwneud gwahaniaeth perthnasol. Felly, mae angen gweithredu i sicrhau bod y gweithgareddau i liniaru risgiau yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn effeithiol (**Argymhelliad 1**).
- 24 Yn ystod y llynedd, mae pwyllgorau a'r Bwrdd wedi tynnu sylw at bryderon sylweddol bod yr adroddiadau ansawdd a pherfformiad integredig yn rhy hir ac, mewn rhai achosion, yn aneglur neu'n cynnwys gwallau. Am y rheswm olaf y gwrthododd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad dderbyn yr adroddiad perfformiad ar sawl achlysur yn ystod 2021–22. Bu problemau hefyd yn ymwneud â bylchau a materion fformat yr adroddiadau perfformiad, a oedd yn arbennig o

nodedig ym mhapurau Bwrdd Awst 2022. Mae gwaith yn parhau i fireinio'r adroddiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig ar lefel y Bwrdd yn dal i fod yn ddogfen hir nad yw bob amser yn rhwydd ei dehongli. Yn aml, nid yw'r naratif yn egluro'n effeithiol pryd y bydd y Bwrdd lechyd yn ôl ar y trywydd iawn, ac nid yw'n disgrifio effeithiolrwydd y camau gwella. Felly, mae angen gweithredu ar frys i wella'r broses o adrodd ar sicrwydd perfformiad (**Argymhelliad 2**). Mae hyn yn enwedig o bwysig oherwydd bod y perfformiad sefydliadol yn parhau i fod yn wael yn y gwasanaeth gofal heb ei drefnu a'r gwasanaeth gofal a gynlluniwyd. Er bod arosiadau am rai gwasanaethau diagnostig yn gwella, mae'r gwasanaeth canser ac arosiadau gofal llygaid yn gwaethygu'n araf.

- 25 Amlyga ein [hadroddiad llywodraethu ansawdd](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, fod y Bwrdd lechyd yn cymryd agwedd ragweithiol tuag at adnewyddu ei Strategaeth Gwella Ansawdd a chefnogi fframwaith ansawdd a'i fod yn ceisio rheoli risgiau ansawdd gweithredol â goruchwyliaeth risgiau a materion ansawdd cyffredinol gan y pwyllgor. Gwnaethom dynnu sylw hefyd at gyfleoedd pwysig i wella, megis cryfhau trefniadau ar gyfer dysgu ar draws y sefydliad a mynd i'r afael ag anghysondebau mewn adnoddau ar gyfer gweithgareddau gwella ansawdd. Mae hyn yn enwedig o bwysig o ystyried pryderon hirsefydlog gyda rhai agweddau ar wasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau fasgwlaidd a risgiau ansawdd sy'n gysylltiedig â chapasiti adrannau brys.
- 26 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021–22, adroddodd y Bwrdd lechyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau "byth" a'r nifer uchaf o ddigwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol ledled Cymru. Dylid nodi bod ansicrwydd ynghylch cadernid gwaith adrodd ar ddigwyddiadau ar draws pob corff yn y GIG yn rhwystro'r gallu i asesu sefyllfa gymharol y Bwrdd lechyd yn iawn o'i gymharu ag eraill yng Nghymru. Cynhaliodd Uned Cyflawni GIG Cymru² waith yn ystod y flwyddyn i asesu digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol a digwyddiadau "byth" y Bwrdd lechyd. Gwnaethant nodi diwylliant adrodd da. Fodd bynnag, gwnaethant ganfod hefyd fod angen i'r Bwrdd lechyd wella'r prosesau ymchwilio i ddigwyddiadau, gan gynnwys edrych yn ehangach ar dueddiadau er mwyn nodi dysg y gellir ei rhoi ar waith ar draws y sefydliad, yn hytrach na gweithredu fesul achos. Bu'r Uned Gyflawni yn ymgysylltu ymhellach gyda'r Bwrdd lechyd yn 2022 i gefnogi gwelliannau.
- 27 Yn ystod mis Mehefin 2022, fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Brif Weithredwr y Bwrdd lechyd yn tynnu sylw at anghywirdebau yn adroddiad cyhoeddus y Bwrdd lechyd o ran nifer y cwynion yr oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu derbyn ynglŷn â'r Bwrdd lechyd. Er na chanfuom unrhyw dystiolaeth bod yr anghywirdebau a nodwyd yn ganlyniad i gamadrodd bwriadol, rydym wedi argymhell bod y Bwrdd lechyd yn ymgysylltu'n fwy

² Nod Uned Cyflawni GIG Cymru yw cefnogi gwelliannau cynaliadwy yn GIG Cymru ac mae wedi goruchwilio digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol ym mhob corff y GIG.

rhagweithiol â swyddfa'r Ombwdsmon er mwyn dilysu niferoedd y cwynion cyn adrodd yn gyhoeddus (**Argymhelliad 3**).

- 28 Yn ystod 2021, cynhaliodd y Bwrdd lechyd brosiect helaeth i fudo ei ddogfennau rheoli ysgrifenedig, gan gynnwys polisïau, i safle mewnrwyd newydd. Cynhyrchodd hyn restr o 800 o ddogfennau rheoli ysgrifenedig a gadarnhawyd i'w mudo. Nododd yr ymarfer lawer o bolisïau a oedd yn hwyr yn cael eu hadnewyddu, ac roedd rhai ohonynt wedi bod angen eu hadnewyddu ers 2011. Mae angen gweithredu i fynd i'r afael â hyn oherwydd y gallai polisïau sydd wedi dyddio adael y sefydliad mewn perygl. (**Argymhelliad 4**).
- 29 Roedd adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Mawrth 2022 hefyd yn nodi gwendidau ynghylch cofrestr rhoddion a datganiadau o fuddiannau y Bwrdd lechyd. Mae'r adroddiad yn sôn am ddiffyg trefniadau monitro ar gyfer y prosesau hyn a achosir gan faterion capasiti. Mae diffyg capasiti hefyd wedi golygu ei bod yn hen bryd gweithio i weithredu'r argymhellion yn yr adolygiad. Nodwn fod gan y Bwrdd lechyd system datganiadau o fuddiannau newydd ar waith ers mis Ebrill 2023.
- 30 Dywed y Bwrdd lechyd fod traciwr archwilio ar gyfer pob un o gyfarfodydd arferol y Pwyllgor Archwilio. Gan fod fformat y traciwr archwilio yn fyr, nid yw'n rhoi sicrwydd llawn bod argymhellion wedi eu rhoi ar waith mewn gwirionedd. Canfuom enghreifftiau o argymhellion neu gamau yr ystyriodd y Bwrdd lechyd eu bod wedi eu cwblhau a'u tynnu oddi ar y traciwr, lle codwyd pryderon yn ddiweddarach, gan ddangos y mater craidd fel mater nad oedd wedi ei ddatrys (**Argymhelliad 5**).

Cynllun y sefydliad

- 31 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych a yw'r strwythur sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso gweithio ar draws y system gyfan.
- 32 Canfuom fod gan y **model gweithredu newydd y potensial i gryfhau'r sefydliad, ond i fod yn gwbl effeithiol, fod angen rhoi'r model ar waith yn effeithiol ochr yn ochr â datblygu arweinyddiaeth cryf a sefydlog.**
- 33 Yn ystod ein gwaith maes asesu strwythuredig, roedd y cyfweledigion yn adlewyrchu bod strwythur blaenorol y sefydliad yn creu rhaniadau cyfrifoldebau di-fudd. Mae materion hirsefydlog hefyd y mae rhoi'r model gweithredu newydd ar waith yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o staff yn uwchgyfeirio materion gweithredol at swyddi uwch a Gweithredol iawn yn ddiangen yn hytrach na'u rheoli yn y timau gweithredol. Cyflwynodd y Bwrdd lechyd fodel gweithredu newydd yn ddiweddar. Mae hyn yn seiliedig ar dair cymuned ieuchyd (dwyrain, canol, a gorllewin) sy'n integreiddio gwasanaethau

aciwt, cymunedol a gofal sylfaenol³. O'n cyfweiliadau, mae'n ymddangos bod consensws y bydd y model newydd hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig yn well ac yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau strwythurol hanesyddol.

- 34 Fodd bynnag, clywsom sawl pryder hefyd am y ffordd y cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei fodel gweithredu newydd. Er bod yr amser paratoi i roi'r model newydd ar waith wedi bod yn eithaf sylweddol, clywsom bryderon nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gwbl barod i roi'r strwythur model gweithredu newydd yn uniongyrchol cyn iddo fynd yn fyw ym mis Awst 2022. Ni ddaeth ein gwaith maes o hyd i dystiolaeth ddigonol o gynllun gweithredu na dull clir o drosglwyddo atebolrwydd. Bu oediadau hefyd wrth recriwtio i swyddi allweddol, gan arwain at benodiadau interim a bylchau mewn swyddi allweddol. Ers ei roi ar waith ym mis Awst, rydym hefyd yn deall y collwyd profiad a gwybodaeth sylweddol drwy'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd gyda phenodiadau i swyddi allweddol yn y strwythur, ond yn awr mae'n rhaid iddo gwblhau'r broses o roi'r model newydd ar waith yn effeithiol ar frys er mwyn sicrhau'r manteision a fwriadwyd (**Argymhelliad 6**).

Trefniadau cynllunio strategol

- 35 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau ar drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:
- gweledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad;
 - Cynllun Tymor Canolig Integredig;
 - trefniadau cynllunio y sefydliad;
 - trefniadau'r sefydliad ar gyfer gweithredu a monitro'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 36 Canfuom **er bod rhai agweddau ar drefniadau cynllunio strategol wedi gwella, fod y Bwrdd Iechyd yn dal heb gynllun tymor canolig cymeradwy, a bod angen cynlluniau galluogi tanategol sy'n gyson â'r strategaeth, a cherrig milltir a chanlyniadau clir, ar y strategaeth glinigol newydd.**

Gweledigaeth, amcanion strategol, a chynllun tymor canolig integredig

- 37 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth, strategaeth, a chynllun tymor canolig ar waith yn y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

³ Bydd y Bwrdd Iechyd yn ailstrwythuro gwasanaethau galluogi corfforaethol (gan gynnwys y gweithlu, cyllid, ac ystadau a chyfleusterau) yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cefnogi'r cymunedau iechyd newydd.

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi eu gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau, a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a oes strategaeth clinigol hirdymor priodol sy'n tanategu'r strategaeth hirdymor; ac
- a adolygwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan y Bwrdd, a gyflwynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

38 Canfuom fod **strategaeth glinigol y Bwrdd lechyd yn gam ymlaen cadarnhaol a hirddisgwyliedig, ond bydd ei rhoi ar waith yn ddibynol ar ddatblygu cynlluniau tanategol clir yn gyflym i'w chyflawni. Er i'r Bwrdd lechyd wneud rhai camau cadarnhaol yn natblygiad ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2022–25, mae'n dal i fod heb gynllun tymor canolig cymeradwy.**

39 Cadarnhaol yw nodi bod y Bwrdd wedi cymeradwyo ei Strategaeth Glinigol newydd ar gyfer 2022–32 ym mis Awst 2022. Mae hwn yn ddatblygiad hirddisgwyliedig ac mae'n darparu glasbrint ar gyfer siâp trosfwaol gwasanaethau clinigol yng ngogledd Cymru, gan gydnabod yr ymrwymadau presennol. Fodd bynnag, mae'r strategaeth glinigol yn parhau i fod yn ddogfen lefel uchel iawn, ac nid yw'n glir sut bydd y Bwrdd lechyd yn monitro'r cynnydd ac yn barnu ei lwyddiant. Felly, bydd angen i'r Bwrdd lechyd weithredu'n gyflym i ddatblygu cynlluniau gwasanaethau clinigol tanategol a strwythur rhaglen briodol i gyflawni'r strategaeth (**Argymhelliad 7**).

40 Gwnaeth y Bwrdd lechyd gynnydd rhesymol wrth baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022–25. Mae ein gwaith yn dangos bod rhaglenni gwaith cliriach wedi eu nodi yng nghynllun 2022–25 nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd ystyriaeth resymol hefyd o ofynion adnoddau cysylltiedig ar gyfer llawer o'r mentrau hyn ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun. Canfuom waith craffu priodol ar ddrafftiau Cynllun Tymor Canolig Integredig⁴ mewn fforymau gweithredol a phwyllgorau cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

41 Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig, ni lwyddodd Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r cynllun. Nododd sylwadau Llywodraeth Cymru fod angen cysoni cynllun 2022–25 yn gryfach â fframwaith gwella ymyrraeth wedi ei thargedu y Bwrdd lechyd. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gofyn i'r Bwrdd baratoi Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24 yn rhan o'r gofynion o dan fesurau arbennig. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Cynllun Blynyddol yn dal i gael ei ddatblygu.

⁴ Adolygwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth a'r Pwyllgor Pherfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.

Trefniadau cynllunio

- 42 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a ystyrir egwyddorion gofal iechyd pwylllog ac ar sail gwerth mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol, ac a ydynt yn cael eu hadlewyrchu; ac
 - a ddatblygwyd strategaethau a chynlluniau corfforaethol mewn cysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol.
- 43 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd â nifer o'i gynlluniau a'i strategaethau allweddol, fodd bynnag, mae'n rhaid iddo gymryd camau i sicrhau eu bod wedi eu cysoni'n llawn, a'u bod yn manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.**
- 44 Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi neu adnewyddu sawl fframwaith a chynllun allweddol ochr yn ochr â'r strategaethau hirdymor a chlinigol. Mae hyn yn cynnwys y Strategaeth Bobl a Chynllun—'Cryfach Gyda'n Gilydd'—a'i Gynllun Gwella Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, nid yw amserlenni y Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau a strategaethau wedi eu cysoni'n dda. Byddem yn disgwyl gweld cynlluniau clinigol yn nodi siâp modelau gwasanaeth cynaliadwy ac, yn dilyn hyn, strategaethau ar gyfer y gweithlu, yr ystad, digidol a chyllid sydd wedi eu siapio i alluogi'r cynlluniau clinigol i gael eu cyflawni. Yn lle hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r dull cyferbyn drwy gymeradwyo strategaethau ar gyfer y gweithlu, digidol a'r ystad cyn datblygu cynlluniau a modelau clinigol cynaliadwy.
- 45 Nod Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth⁵ yw gwella canlyniadau iechyd pobl Cymru mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol. Er bod gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn nod yn y strategaeth glinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth. O ystyried y diffyg sylfaenol sylweddol yn y Bwrdd Iechyd, mae angen clir i ddylunio a siapio gwasanaethau er mwyn cynyddu gymaint â phosibl y buddion o ddulliau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth (**Argymhelliad 8**).
- 46 Fel arfer, mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio ymgysylltu mewnol ac allanol yn ei ddatblygiad strategaeth, ond cyfyngedig oedd gweithgareddau ymgysylltu yn ystod 2021–22 mewn rhai achosion oherwydd y pandemig. Clywsom bryderon am y lefel isel o staff a oedd yn chwarae rhan yn y broses o ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–25. Roedd ymgysylltiad strategaeth ddigidol y Bwrdd Iechyd yn fwy llwyddiannus, a derbyniodd staff a chleifion dros 4,000 o sylwadau. Mae camau yn y strategaeth ddigidol yn cyfateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, sy'n dangos ymrwymiad i wrando ac ymateb. Canfuom hefyd ddull rhesymol gyflawn o ymgysylltu â'r strategaeth glinigol. Cafodd arolwg ar-lein y Bwrdd Iechyd 557 o ymatebion. Canfuom drafodaethau wedi eu targedu'n briodol gydag uwch-

⁵ Gwerth mewn Iechyd—<https://gisw.gig.cymru/>

arweinwyr clinigol hefyd a chyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol gogledd Cymru, partneriaid yn y trydydd sector, y Cyngor Iechyd Cymuned, a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

Gweithredu a threfniadau monitro

- 47 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar y broses o weithredu ac o ddarparu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan eu herio nhw. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau, a chanlyniadau clir sy'n cynorthwyo'r gwaith monitro ac adrodd; ac
 - a yw'r bwrdd yn cael adroddiadau cynnydd yn rheolaidd er mwyn darparu strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 48 Canfuom mai **amrywiol yw'r trefniadau monitro, sy'n arwain at sicrwydd cyfyngedig i'r bwrdd a'r pwyllgor ar effaith strategaethau a chynlluniau allweddol.**
- 49 Canfuom amrywioldeb yn y graddau y mae gan strategaethau gynlluniau ategol clir a cherrig milltir. Fodd bynnag, canfuom fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys amcanion CLYFAR⁶, fel yr oedd Cynllun Gwella Ysbyty Glan Clwyd, sy'n dangos bod dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn aeddfedu mewn rhai meysydd.
- 50 Cyfrannodd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn briodol at ddatblygiad a gwaith monitro Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–25 ac maent yn parhau i wneud hynny gyda datblygiad cynllun 2023–26. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno fformat newydd ar gyfer adroddiad monitro Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–25 a bydd yn parhau i'w ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae gwendidau o hyd yn y dull presennol wrth i aelodau'r bwrdd barhau i fynegi rhwystredigaeth nad yw adroddiadau cynnydd yn dangos yn glir pa gamau a gymerwyd, erbyn pryd, a'u heffaith.

Rheoli adnoddau ariannol

- 51 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:
- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol;
 - rheolaethau ariannol;
 - trefniadau ar gyfer adrodd a monitro'r perfformiad ariannol.

⁶ Mae CLYFAR yn ymwneud â phennu nodau perfformiad Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol.

- 52 Noder: Mae'r adroddiad hwn yn gwneud sylwadau ar unrhyw adolygiad dilynol neu ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt mewn cysylltiad â'r pryderon a nodwyd gennym drwy ein Harchwiliad o Gyfrifon.
- 53 Canfuom fod **gwendidau rheoli sylweddol, gan gynnwys y rhai a amlygir yn ein barn archwilio ariannol amodol ar gyfer 2021–22. Mae hyn, ynghyd â chynlluniau annigonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig, yn cyflwyno heriau ariannol brys a sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.**

Amcanion ariannol

- 54 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a yw'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei hamcanion ariannol ar gyfer 2021–22, ac a yw trywydd iawn i fodloni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022–23; ac
 - a oes ganddo gynllun ariannol clir a chadarn ar waith, sy'n cynnwys arbedion realistig a chynaliadwy a chynlluniau gwella costau.
- 55 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi methu â bodloni ei ddyletswydd ariannol tair blynedd i fantoli'r cyfrifon, fod cynlluniau arbed yn cael eu tangyflawni a bod risg gynyddol i gynaliadwyedd cyllid yn y tymor canolig.**
- 56 O fis Tachwedd 2020, darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad strategol ychwanegol o £297 miliwn i'r Bwrdd Iechyd dros gyfnod o 3.5 blynedd. Dyrennir £82 miliwn o hyn fesul blwyddyn ar gyfer 2021–22, 2022–23, a 2023–24⁷. Nod y dyraniad yw cwmpasu'r diffyg ariannol, gwella perfformiad, a sbarduno rhaglen drawsnewid sy'n gysylltiedig â model clinigol cynaliadwy ar gyfer y Gogledd.
- 57 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cydbwysu'r sefyllfa ariannol ym mlwyddyn ariannol 2021–22, methodd y Bwrdd Iechyd â mantoli'r cyfrifon dros gyfnod tair blynedd 2019–2022, gan adrodd diffyg o £37.9 miliwn. Digwyddodd hyn oherwydd diffygion diwedd y flwyddyn a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.
- 58 Cymeradwyodd y bwrdd gynllun ariannol 2022–25 yn rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys rhagdybiaethau cost clir, gan gynnwys gwariant rhaglen COVID-19. Yn y cynllun, pennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion uchelgeisiol o £35 miliwn ar gyfer 2022–23. Fodd bynnag, roedd yn araf i ddatblygu cynlluniau arbedion cyn y flwyddyn ac yn gynnar yn y flwyddyn. Ym mis deg, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld arbedion o £26.8 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn o'u cymharu â'r targed o £35 miliwn. Ym mis Ionawr 2023, mae'r cynigion arbedion ar gyfer 2023–24 hefyd ymhell oddi wrth fodloni'r gofynion.
- 59 Mae cynllun arbedion ariannol 2022–23 yn seiliedig ar raniad cyfartal rhwng arbedion trafodaethol tymor byr ac arbedion cylchol h.y., £17.5 miliwn o arbedion

⁷ Darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad ariannol ychwanegol yn rhan o becyn ymyrraeth wedi ei thargedu.

cylchol allan o gyfanswm o £35 miliwn. Erbyn 2024–25, y bwriad yw cynyddu arbedion cylchol ‘trawsnewidiol’ i 85% o gyfanswm yr arbedion a gynllunnir. Ond mae’r cam ymlaen hwn o arbedion cylchol yn debygol o fod yn heriol. Ym mis deg o 2022–23, dim ond £11.4 miliwn o gyfanswm yr arbedion cylchol sy’n ofynnol y disgwylir eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa o fantoli’r cyfrifon ar hyn o bryd.

- 60 Bydd tangyflawni arbedion cylchol yn effeithio ar y diffyg sylfaenol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ym mis Ionawr 2023, mae’r Bwrdd Iechyd wedi nodi oddeutu £0.5 miliwn o’r £23 miliwn o arbedion cylchol sydd eu hangen ar gyfer 2023–24. Mae anallu i sicrhau arbedion cylchol digonol yn bryder penodol pan o dan yr amgylchiadau canlynol:
- pan fo arbedion cylchol yn cymryd mwy o amser i’w cyflawni yn aml, yn enwedig os ydynt yn gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaethau.
 - pan fo risgiau sylweddol o chwyddiant yn parhau i’r cyllid a risg na fydd dyraniad ychwanegol sylweddol Llywodraeth Cymru yn parhau y tu hwnt i 2023–24.
- 61 O ystyried y pwysau ar gyllid y Bwrdd Iechyd, mae angen rhoi dulliau adfer ariannol ar waith (**Argymhelliad 9**). Hefyd, bydd angen symud o sefyllfa lle mae rhai Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac achosion busnes yn cael eu hystyried yn fodd o sicrhau cyllid ychwanegol, i sefyllfa lle mae rhaglenni’n cyflawni effeithlonrwydd costau ac yn osgoi costau drwy newid gwasanaethau a thrwy wella ansawdd. Efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch dadfuddsoddi hefyd, yn enwedig lle nad yw gwasanaethau neu ystadau yn ychwanegu gwerth.

Rheolaethau ariannol

- 62 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi, a rheoli’r defnydd o’i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
 - a yw’r Pwyllgor Archwilio yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy’n ymwneud â hepgoriadau tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
 - a oes trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith; ac
 - a gafodd datganiadau ariannol eu cyflwyno ar amser, heb gynnwys camdatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.
- 63 Canfuom fod **yn rhaid i’r Bwrdd Iechyd archwilio a gwella’r methiannau rheoli sylweddol a nodwyd yn rhan o’n harchwiliad o’i gyfrifon ar gyfer 2021–22 a thynhau ei afael i leihau gwariant y tu hwnt i’r cyllidebau a gynlluniwyd.**
- 64 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ‘gwir a theg’ amodol ac ar ‘reoleidd-dra’ ar gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd. Noda’r archwiliad wallau sylweddol gan

gynnwys y ffaith nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu digon o dystiolaeth archwilio i ddangos bodolaeth £72 miliwn o dreuliau yr aed iddynt ond na chafodd eu talu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd digon o dystiolaeth ychwaith i gadarnhau yr aed i wariant o £122 miliwn a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn na bod hyn wedi ei gyfrifyddu'n iawn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir. Gan nad oedd gan y Bwrdd Iechyd y capasiti i gefnogi'r gwaith archwilio pellach yr oedd ei angen i archwilio'r materion hyn yn llawn, cyflwynwyd amod "cyfyngu ar gwmpas" ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd. Wrth gyflawni'r archwiliad, canfuom yr hyn a ganlyn:

- methiannau rheoli mewnol sylweddol o ran cydnabod cronïadau, symiau taladwy, a gwariant yn ystod y flwyddyn,
- camddosbarthu gwariant cyfalaf fel refeniw, a
- methiant Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth gan y bwrdd ar gyfer contract cronedig gwerth dros £1 miliwn, yn groes i'r Rheolau Sefydlog a Deddf GIG (Cymru) 2006.

- 65 Yn dilyn ein harchwiliad o gyfrifon 2021–22, comisiynodd y Bwrdd Iechyd Ernst & Young i gynnal adolygiad manwl i benderfynu beth arweiniodd at yr amod ar y cyfrifon a'r rhai dan sylw. Mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi dod i ben, ac oherwydd ei ganfyddiadau, mae Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru wedi cwblhau ymchwiliadau pellach.
- 66 Mae'r gwariant ar draws y Bwrdd Iechyd yn uwch na'r gyllideb ym mis wyth 2022–23, sy'n awgrymu materion rheoli ariannol yn rhannol. Mae risg gynhenid hefyd wrth newid strwythurau, sy'n arwain at golli atebolrwydd a rheolaeth ariannol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cryfhau rheolaeth ariannol yn y model gweithredu newydd.
- 67 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd a phriodol yn ymwneud ag hepgoriadau tendr sengl⁸, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll yn ei gyfarfodydd. Cyflwynir yr adroddiadau yn sesiwn breifat y cyfarfod, ac mae cyfle i fireinio'r gwaith adrodd a symud y rhain i'r sesiwn gyhoeddus. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi codi ymholiadau mewn cysylltiad â defnydd sylweddol o hepgoriadau tendr sengl. Yn 2021–22, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd 151 o hepgoriadau tendr sengl gwerth cyfanswm o £18.7 miliwn (cynnydd o 50% a 75% yn y drefn honno o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol).
- 68 Yn ystod chwe mis cyntaf 2022–23, bu cynnydd o 70 yn nefnydd y Bwrdd Iechyd o hepgoriadau tendr sengl, h.y. twf o oddeutu 30% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021–22. Er mwyn rhoi hyn mewn persbectif, adroddodd yr ail fwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wyth hepgoriad tendr sengl yn ystod yr un cyfnod. Mae'r defnydd helaeth o hepgoriadau tendr sengl yn Betsi Cadwaladr yn codi pryderon sylweddol am y trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd (**Argymhelliad 9**). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen

⁸ Defnyddir hepgoriad tendr sengl i ganiatáu caffaeliad heb broses tendro llawn a chystadleuaeth.

iddo gynyddu ei ddefnydd o fframweithiau y GIG er mwyn lleihau'r angen am hepgoriadau.

Trefniadau monitro ac adrodd

- 69 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r bwrdd yn goruchwyllo ac yn craffu ar berfformiad ariannol y sefydliad, gan ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a yw adroddiadau i'r bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, y risgiau, a'r camau lliniaru a gymerir; ac
 - a yw aelodau'r bwrdd yn herio asesiadau o'r sefyllfa ariannol sy'n mynd rhagddynt yn ddigonol.
- 70 Canfuom, **er bod y perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn rheolaidd, fod angen pwyslais cryfach ar effaith mesurau gwella ariannol yn y tymor byr ac ar gynaliadwyedd ariannol cyffredinol y Bwrdd lechyd yn y tymor canolig.**
- 71 Cyflwynir adroddiadau ariannol rheolaidd i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a'r bwrdd. Mae'r adroddiadau'n nodi'r heriau ariannol tymor byr a thymor hwy, gan nodi lle mae pryderon ariannol neu orwariant penodol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi costau cyflog a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog, effeithiau COVID-19 ac fel y nodir yn flaenorol, y perfformiad o ran arbedion. Mae adroddiadau'n dangos bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod yn briodol ei risgiau ariannol a'i lithriant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfleu'n ddigonol y camau adfer sydd eu hangen nac effaith y mesurau gwella ariannol blaenorol.
- 72 Mae gan yr Aelodau Annibynnol ddiddordeb sylweddol yn yr adroddiadau ariannol, ac maent yn cynhyrchu trafodaeth fanwl. Fodd bynnag, mae Aelodau Annibynnol wedi dweud yn gyhoeddus nad yw'r adroddiadau cyllid yn darparu dadansoddiad digonol na sicrwydd ar sut y bydd y Bwrdd lechyd yn rheoli ei heriau ariannol sylweddol. Er bod rhaid i waith craffu ganolbwyntio ar y sefyllfa ariannol gyfredol, mae angen canolbwyntio hefyd ar y mesurau sy'n angenrheidiol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy y sefydliad pan fydd dyraniadau ychwanegol Llywodraeth Cymru yn dod i ben (**Argymhelliad 10**).

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

- 73 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau lefel uchel ar drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:
- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant y staff⁹.

⁹ Noder, byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau cynllunio gweithlu y sefydliad.

- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

74 Canfuom **fod angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y mesurau y mae wedi eu cyflwyno i gefnogi llesiant y staff yn cael yr effaith a fwriedir. Mae angen gwelliannau o ran y ffordd y darperir adnoddau ar gyfer prosiectau digidol a'r ffordd y cânt eu cyflawni, ac mae angen mynd i'r afael â materion hirsefydlog sylweddol gydag ystad y Bwrdd lechyd hefyd drwy weithredu'r strategaeth ddiwygiedig.**

Cefnogi llesiant y staff

- 75 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi llesiant y staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a yw dulliau i ofyn am safbwyntiau'r staff ar eu hanghenion llesiant yn effeithiol, ac a yw'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau priodol i ymateb i ganfyddiadau; ac
 - a yw camau gweithredu i gefnogi a gwella llesiant y staff yn cael eu monitro'n weithredol gan y bwrdd, gan gynnwys camau a gymerir mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19¹⁰.
- 76 Canfuom, **er bod y Bwrdd lechyd wedi cyflwyno ystod o fesurau i gefnogi llesiant y staff, nad oes trefniadau digonol i werthuso'r rhain i benderfynu a yw'r holl wasanaethau llesiant yn cyfiawnhau cyllid parhaus.**
- 77 Mae gan y Bwrdd lechyd raglen o wasanaethau llesiant y staff gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, cymorth llesiant staff a sesiynau ymwybyddiaeth o straen. Yn gadarnhaol, mae gan y Bwrdd lechyd adnoddau pwrpasol i reoli'r gwasanaethau hyn ledled y tair cymuned iechyd. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod staff sydd wedi eu gwasgaru'n ddaearyddol a'r rhai nad ydynt yn gallu cael gafeol ar dechnoleg sefydliadol yn gallu defnyddio gwasanaethau llesiant. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod sylwadau a gasglwyd yn rhan o'r ymgysylltiad ar y Strategaeth Glinigol yn cynnwys safbwyntiau y gallai'r Bwrdd lechyd wneud mwy i gefnogi llesiant y staff.
- 78 Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi cynnal arolwg staff ers 2020 ac nid yw wedi datblygu arolygon pwls na gwerthusiadau eraill i ddeall y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau llesiant sydd ar waith, eu lefelau boddhad na'u heffaith. Heb werthusiad digonol, mae'r gwasanaeth yn debygol o fethu cyfleoedd i ganolbwyntio ar ei gynnydd i'w staff, gan ei wella. Ariannwyd rhai gwasanaethau llesiant ag arian tymor byr yn 2021–22. O ystyried y pwysau sylweddol parhaus ar wasanaethau,

¹⁰Gofalu am y Gofalwyr? Sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19.

mae angen i'r Bwrdd lechyd werthuso ei 'gynnig' llesiant er mwyn sicrhau effaith mor gadarnhaol â phosibl o'r adnoddau y mae'n eu hymrwymo (**Argymhelliad 11**).

79 Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom gyflwyno ein hadroddiad Gofalu am y Gofalwyr sy'n manylu ar ein hadolygiad o sut y cefnogai cyrff y GIG lesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19. Er ein bod wedi ceisio ymateb gan y rheolwyr sawl gwaith, nid ydym wedi derbyn hyn ac felly ni allwn adolygu'r cynnydd. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn ychwanegu argymhellion adroddiad Gofalu am y Gofalwyr at draciwr argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac yn ceisio sicrwydd addas ar y cynnydd.

Rheoli adnoddau digidol

- 80 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwyir gan y Bwrdd ar waith sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch, ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau newydd o ofal a ffyrdd newydd o weithio; ac
 - a yw'r Bwrdd yn monitro'n weithredol y manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol.
- 81 Canfuom fod **angen sicrhau digon o adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau a alluogir yn ddigidol, yn enwedig lle gall buddsoddi mewn digidol ysgogi effeithlonrwydd, gwella ansawdd ac arbedion mewn manau eraill.**
- 82 Cymeradwyodd y Bwrdd lechyd ei strategaeth ddigidol 'Ein Dyfodol Digidol 2021–24' ym mis Mai 2021. Mae'r strategaeth ddigidol yn cyfleu dwy uchelgais ddigidol y Bwrdd lechyd (Cleifion a Gofalwyr wedi eu Galluogi; a Staff sydd wedi Cysylltu) a chwe galluogwr allweddol i gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae'r strategaeth yn nodi sawl rhaglen waith i ddiogelu systemau cofnodi gwybodaeth cleifion ac i foderneiddio modelau cyflawni ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, cymeradwyodd y bwrdd y strategaeth ddigidol heb eglurhad digonol ynghylch sut y byddai'n cael ei hariannu.
- 83 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu sawl rhaglen strategaeth ddigidol allweddol ers mis Mai 2021. Mae hyn yn cynnwys parhau i roi System Gweinyddu Cleifion Cymru a thechnoleg ar waith er mwyn galluogi gweithio ystwyth. Fodd bynnag, oherwydd diffyg adnoddau, roedd dros hanner y prosiectau digidol a gynlluniwyd ar gyfer 2021–22 heb eu cwblhau neu wedi eu cwblhau'n rhannol erbyn eu dyddiadau arfaethedig.
- 84 Ym mis Tachwedd 2022 ac yn dilyn cytundeb 'heb ei ariannu' y strategaeth ddigidol, cafodd y bwrdd wybodaeth ddiweddaraf sylweddol ar gynlluniau Digidol, Data a Thechnoleg. Amlygodd y rhain heriau sylweddol y mae'r gwasanaeth digidol yn eu hwynebu, gan gynnwys:

- cryfhau ei seilwaith presennol
- buddsoddiad wedi ei dargedu mewn digidol i ddiwallu anghenion sefydliadol a
- sicrhau bod capasiti a sgiliau yn yr adran Digidol, Data a Thechnoleg yn gallu diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

85 Unwaith eto, fel y gwelwyd ym mis Mai 2021, nid oedd y bwrdd yn cytuno i ariannu'r gwelliannau ym mis Tachwedd 2022. Yn lle hynny, nododd y bwrdd y byddai angen ystyried cyllid yn rhan o flaenoriaethu ehangach y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cydnabyddir canlyniadau darparu gwasanaethau digidol aneffeithiol ar ddiogelwch cleifion ac ansawdd gofal ar Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Bwrdd lechyd. Yn ôl ffigyrau'r Bwrdd lechyd, 1.18% yw canran ei wariant gweithredol cyffredinol ar wasanaethau digidol yn y sefydliad o'i chymharu â chyfartaledd cyffredinol o 2% ledled Cymru. Dylai'r Bwrdd lechyd dargedu buddsoddiadau digidol ar fuddion busnes, gyda phwyslais penodol lle gellir defnyddio 'digidol' i ryddhau effeithlonrwydd gwasanaethau a/neu enillion o ran ansawdd (**Argymhelliad 9**).

Rheoli'r ystad ac asedau ffisegol eraill

- 86 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:
- a oes strategaethau a chynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo gan y bwrdd ar waith ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach.
 - a oes trefniadau priodol ar waith fel y gall y bwrdd adolygu a chraffu ar raglenni a phrosiectau cyfalaf sylweddol, gan eu herio a'u cymeradwyo nhw; ac
 - a oes trefniadau priodol ar waith fel y gall y bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol o gyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill.
- 87 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd broblemau ystadau hirsefydlog sylweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.**
- 88 Cymeradwyodd y bwrdd strategaeth ystadau 10 mlynedd newydd y Bwrdd lechyd ym mis Ionawr 2023. Mae'r strategaeth yn dangos yn glir nad yw ystad y Bwrdd lechyd yn ddigonol. Ac eithrio mesur ar 'ddefnyddio lle gwag', mae ystad graidd y Bwrdd lechyd yn cyflawni'n wael o'i chymharu â phob mesur ystad arall o'u cymharu â chyfartaledd Cymru. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd lechyd yn cyflawni islaw'r targed mewn cysylltiad â chyflwr ffisegol ystadau a chydymffurfiaeth diogelwch tân. Mae 238 eiddo y Bwrdd lechyd, sy'n costio oddeutu £73 miliwn y flwyddyn i'w gweithredu, yn aneffeithlon yn gyffredinol o ran ynni, a byddai'n costio oddeutu £350 miliwn i fynd i'r afael â chyfanswm yr ôl-groniad mewn gofynion cynnal a chadw.
- 89 Mae'r strategaeth ystadau yn rhoi safbwynt diamwys ar y risgiau a'r heriau parhaus y mae'r Bwrdd lechyd yn eu hwynebu. Mae hefyd yn cysylltu'n dda â nodau lefel uchel a nodir yn strategaeth glinigol y Bwrdd lechyd, gan gydnabod, i raddau

cyfyngedig, newid yn iechyd y boblogaeth, gwasgariad daearyddol angen a bwriad y gwasanaeth iechyd i newid gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae angen i gynlluniau clinigol nodi siâp modelau gofal yn y dyfodol yn gliriach er mwyn sicrhau bod ystadau y Bwrdd Iechyd yn galluogi llwybrau gofal newydd yn llawn.

- 90 Yn gyffredinol, mae'r strategaeth Ystadau yn nodi gweledigaeth lefel uchel dda a blaenoriaethau cychwynnol y cytunwyd arnynt, gan gynnwys:
- Rhaglen parhad Seilwaith Ysbyty Maelor Wrecsam;
 - Rhaglen gydymffurfio tân Ysbyty Gwynedd;
 - Prosiect datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra;
 - Disodli Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd;
 - Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd; a
 - Rhaglen canolfannau triniaeth rhanbarthol.
- 91 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mabwysiadu model canolfannau triniaeth ranbarthol i gynyddu'r capasiti diagnostig a'r capasiti a gynlluniwyd. Comisiynodd y Bwrdd Iechyd Adolygiad Gateway a adroddodd ym mis Gorffennaf 2022. Cododd yr adolygiad bryderon ynghylch cymhlethdod y model ariannu, gan nodi mai cyllid cyfalaf fyddai'r dewis a ffefrir. Er ei bod wedi disgwyl i'r canolfannau hyn fod ar gael yn 2023 yn wreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn disgwyl eu rhoi ar waith yn 2027. Mae hyn yn peri risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd o ran sicrhau bod capasiti gwasanaeth digonol i adfer y rhestr aros ar gyfer gofal arfaethedig. Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau ystadau a nodir yn y paragraff uchod yn gofyn am gannoedd o filiynau o bunnoedd mewn adnoddau cyfalaf, ac am gyllid referniw ychwanegol o bosibl. Cyfyngedig yw cyllid cyfalaf strategol ledled Cymru, felly mae'n amlwg bod angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei ddull ystadau strategol yn ymarferol yn ariannol. Mae goruchwyliaeth y Bwrdd Iechyd o ystadau a risgiau cyfalaf yn rhesymol, ac adroddir rhaglenni allweddol i'r pwyllgor yn ddigonol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y bwrdd (**Argymhelliad 12**):
- yn parhau i flaenoriaethu ei brif raglenni yn effeithiol ac yn rheoli effaith unrhyw oediadau;
 - yn gallu gweld ac yn cytuno ar y gofynion ariannol sy'n angenrheidiol i ddilyn y nodau a nodir yn y strategaeth;
 - yn dilyn, dros amser a yw'r newidiadau i'r ystadau yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni mesurau perfformiad ei ystadau;
 - yn asesu i ba raddau y mae newidiadau mewn ystad yn cefnogi'r broses o gyflawni strategaeth glinigol; ac
 - yn adolygu effaith ei gynllun gweithredu datgarboneiddio 2022.

Atodiad 1

Dull archwilio

Noda **Arddangosyn 2** y dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 2: dull archwilio.

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Arsylwadau	<p>Gwnaethom arsylwi'r cyfarfodydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y bwrdd, Awst 2022, Mehefin 2022.• Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, Mehefin 2022, Ebrill 2022.• Y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth, Mehefin 2022.• Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, Gorffennaf 2022, Mai 2022, a Medi 2022;• Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, yn rhan o bresenoldeb rheolaidd Archwilio Cymru. <p>Hefyd, gwnaethom arsylwi'r bwrdd ym mis Tachwedd 2022 ac ym mis Ionawr 2023 a phob un o'r pwyllgorau uchod ym mis Ionawr 2023 yn rhan o'n hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd.</p>

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	<p>Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch Gorchwyl y bwrdd a'r pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion. • Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch. • Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig. • Dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. • Adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol. • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. • Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol; ac • Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrrff allanol perthnasol eraill.

Cyfweliadau

Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.
- Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.
- Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
- Cadeirydd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth.
- Y Prif Weithredwr (ym mis Awst 2022).
- Y Cyfarwyddwr Cyllid.
- Y Cyfarwyddwr Meddygol.
- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Integredig.
- Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Thrawsnewid.
- Y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau.
- Y Cyfarwyddwr Cynllunio Cyfalaf.
- Y Cyfarwyddwr Safle Aciwt, ardal y Canol.
- Y Cyfarwyddwr Safle Aciwt, ardal y Dwyrain.
- Y Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig, Gorllewin.
- Y Prif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol.
- Ysgrifennydd y Bwrdd.
- Y Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol, Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.
- Y Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio'r Gweithlu a Pherfformiad; a
- Y Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeled.

Atodiad 2

Ymateb y rheolwyr i'n hargymhellion archwilio

Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Adolygu a lle bo angen cryfhau camau lliniaru risg – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A1 Er gwaethaf newidiadau diweddar i drefniadau risg strategol a chorfforaethol y Bwrdd lechyd, nid yw sgoriau risg mewn rhai meysydd allweddol yn gostwng. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r camau lliniaru ar y gofrestr risg gorfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i sicrhau eu bod yn cael yr effaith a fwriadwyd.</p>	<p>Mae Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn goruchwyllo'r gwaith o adolygu'r fframwaith rheoli risg, gan gynnwys ystyried y gofrestr risg gorfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i sicrhau bod mesurau lliniaru clir ac amserlenni cysylltiedig ar waith fel rhan o'r broses o adfywio'r dogfennau hyn gan gynnwys cadernid cynlluniau gweithredu risg. Daw'r broses hon i ben ym mis Medi 2023 a bydd Fframwaith Rheoli Risg a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn tystio iddo.</p> <p>Yn y cyfnod o'r adroddiad hwn hyd at 28 Medi, mae'r Grŵp Rheoli Risg yn goruchwyllo'r risgiau a daw'r camau a'r heriau lliniaru i'r sgoriau a'r mesurau lliniaru gan y Grŵp Rheoli Risg. Gweithiodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Cyswllt gyda'r Grŵp Rheoli Risg i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu bod y cyfarfod yn dod yn "gefnogaeth a her ar y cyd" i adolygu risgiau sylweddol y sefydliad.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Cysylltiol yn dod ag adroddiadau i gyfarfod y Tîm Gweithredol gyda materion allweddol yn ymwneud â sgoriau risg a lliniaru. Mae hyn wedi dechrau. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu wedi rhoi risg ar agenda'r adolygiad Perfformiad ac Atebolrwydd Gwasanaeth</p>	<p>28 Medi 2023</p> <p>Cyflawn</p> <p>Cyflawn</p>	<p>Ysgrifennydd dros dro y Bwrdd</p>

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Adolygiad o adroddiadau sicrhau rheoli perfformiad – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A2 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i fireinio adroddiadau perfformiad i'r bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch ansawdd yr adroddiad perfformiad ac i ba raddau y bydd camau gweithredu a nodir yn arwain at y gwelliannau a fwriadwyd. Dylai'r Bwrdd lechyd wella ei adroddiadau ar sicrhau perfformiad, gan ganolbwyntio mwy ar effaith camau gweithredu gwella perfformiad.</p>	<p>Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu Fframwaith Perfformiad Integredig diwygiedig sy'n ymgorffori adborth o'r Adolygiad Asesu Strwythuredig. Bydd y Fframwaith yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, Pwyllgorau Bwrdd ac yn cynnwys meini prawf ar gyfer cynyddu materion perfformiad. Bwriad yr adroddiad fydd darparu trosolwg mwy cryno o Berfformiad Bwrdd yn erbyn metrigau Fframwaith Gweithredu GIG Cymru, dadansoddiad atodol ar ffurf weledol i gefnogi gwell / haws dealltwriaeth o faterion allweddol ac asesiad cryno o feysydd perfformiad allweddol sy'n peri pryder sylweddol ac yn nodi gwelliant cymharol/dirywiad naill ai yn erbyn targed/cynllun/taflwybr neu ddisgwyliad.</p> <p>Bydd y meysydd allweddol yn cynnwys: Fframwaith Cyflenwi BCU Crynodeb KPI sy'n cyd-fynd â chonfensiwn asesu presennol GIG Cymru Adolygiad llawn o Berfformiad yn erbyn holl fetrigau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru Gwirioneddol v targed neu lwybr ac a yw'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r dangosydd hwnnw Meincnodi cymharol yn erbyn Byrddau lechyd Cymru gyfan (lle bo ar gael), Perfformiad yn erbyn BCU wedi'i gyflwyno i daflwybrau perfformiad GIG Cymru Tueddiadau 12 mis yn tanio Crynodeb o'r perfformiad yn erbyn llwybrau a gyflwynwyd gan y Bwrdd – wedi'u cynnwys fel rhan o'r Cynllun Blynyddol. Adroddiadau Eithriadau a'r mesurau lliniaru sydd ar waith i reoli risg.</p>	<p>31 Gorffennaf 2023 gydag adolygiad parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad</p>

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Sicrhau cywirdeb adrodd ffigyrau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A3 Bu anghysondebau rhwng ffigyrau'r gŵyn a adroddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd a ffigurau'r Bwrdd Iechyd ei hun o fewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Er i'r Bwrdd Iechyd gywiro hyn yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw anghysondebau o'r fath yn digwydd eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddilysu a dilysu rhifau cwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol.</p>	<p>Yn dilyn y canfyddiadau bod y Bwrdd Iechyd a'r Ombwdsmon yn adrodd gwahanol setiau o ddata, trefnwyd cyfarfodydd misol i gael eu dilysu. Cynhaliwyd y rhain gyda Phennaeth Safonau Cwynion yn PSOW a'i dîm a Thîm Llywodraethu Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Cytunwyd yn ddiweddar i leihau'r cyfarfodydd hyn i chwarter, gan fod hyder yn y data a'r broses ddilysu barhaus.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch mynych, yn ein hadroddiad blynyddol, y byddem yn defnyddio diffiniad data'r Ombwdsmon a byddem yn dilysu'r data ymhellach cyn iddo gael ei ddefnyddio yn ein hadroddiad.</p> <p>Mae hyn wedi digwydd eleni fel y cynlluniwyd - mae tystiolaeth o hyn wedi ei gyflwyno i Archwilio Cymru.</p>	Cyflawn	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Adolygu polisïau'r Bwrdd Iechyd – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A4 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol o bolisïau sy'n ddyledus i'w hadnewyddu, sy'n datgelu'r sefydliad i risgiau gwasanaeth a gweinyddol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddarau polisïau'r Bwrdd Iechyd, gan flaenoriaethu polisïau pwysig iawn yn gyntaf, gan gynnwys y polisi ar bolisïau.</p>	<p>Mae Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro wedi sicrhau adnoddau penodol yn ôl i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd o 1 Awst 2023 i gefnogi blaenoriaethu ac adolygu polisïau.</p> <p>Y camau allweddol nawr yw cymeradwyo "polisi ar bolisïau" wedi'i ddiweddarau ac yna cytuno ar restr flaenoriaeth o bolisïau i fynd i'r afael â nhw yn seiliedig ar farn y Tîm Gweithredol cyfrifol am flaenoriaeth. Bydd y rhestr blaenoriaeth/cynllun gwaith yn adrodd drwodd i'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.</p>	<p>Cyflawn</p> <p>Medi 2023</p>	<p>Ysgrifennydd dros dro y Bwrdd</p>
<p>Adolygu olrhain argymhellion archwilio – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A5 Mae'r broses olrhain ac adrodd argymhellion archwilio yn eu fformat presennol yn darparu manylion cyfyngedig, yn enwedig o amgylch y camau a ystyrir yn gyflawn. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio i adolygu fformat y traciwr archwilio ac adrodd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o wybodaeth i roi sicrwydd.</p>	<p>Bydd traciwr archwilio mewnol ac allanol diwygiedig yn cael ei gyflwyno o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae camau gweithredu tymor byr allweddol (hyd at fis Medi 2023) yn cynnwys adolygu'r swyddog olrhain archwilio presennol i atgyfnerthu a/neu gau camau gweithredu ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi. Ochr yn ochr â hyn, bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth Statudol, Llywodraethu a Pholisi (o dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd) yn datblygu datrysiad digidol mewnol ar gyfer olrhain argymhellion yn y dyfodol.</p>	<p>Medi 2023</p>	<p>Ysgrifennydd dros dro y Bwrdd</p>

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gweithredu'r model gweithredu newydd – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau gweithredu'r model gweithredu newydd ar frys, yn enwedig o ran recriwtio deiliaid swyddi sylweddol a lleihau dibyniaeth ar benodiadau interim.</p>	<p>Mae'r Model Gweithredu Cryfach Gyda'n Gilydd yn destun Adolygiad Stocktake fel rhan o ymateb mesurau arbennig y sefydliad. Bydd hyn yn helpu i nodi elfennau a allai fod angen eu diwygio neu eu cryfhau. Yn y cyfamser, mae cynllun recriwtio ar gyfer deiliaid swyddi sylweddol yn cael ei weithredu.</p> <p>Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd chwiliad gweithredol a dewis ar gyfer y Prif Weithredwr yn haf 2023. Bydd partner chwilio a dewis newydd yn cael ei benodi. Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl ac OD yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hyn. Mae cynllun ar waith i hysbysebu yn chwarter pedwar. Mae Prif Swyddog Gweithredol dros dro o'r GIG yng Nghymru wedi'i benodi tan 23 Mawrth, ac mae hyn yn caniatáu cynnal adolygiad portffolio o'r weithrediaeth (adolygiad a gynhaliwyd gan Ymgynghorydd Arbennig Llywodraeth Cymru). Yn dilyn hyn, bydd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn hysbysebu i lenwi unrhyw swyddi gwag yn sylweddol.</p> <p>Mae rheolaethau ychwanegol i leihau dibyniaeth asiantaeth a dros dro wedi'u rhoi ar waith. Mae hyn wedi lleihau nifer y croesfannau yn sylweddol dros y chwe mis diwethaf.</p> <p>Bellach arweinir pob un o'r Cymunedau Gofal Iechyd Integredig (IHC's) gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau sylweddol, i sefydlogi a recriwtio sylweddol i swyddi yn strwythurau IHC. Mae cynllun recriwtio ar gyfer MH&LD yn cael ei weithredu i ddatblygu apwyntiadau sylweddol.</p>	<p>Angen adolygiad parhaus</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu ac OD</p>

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Datblygu cynllun cyflawni clinigol ategol – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strategaeth glinigol ar gyfer ei wasanaethau, fodd bynnag, mae diffyg manylion ar sut y bydd yn cael ei weithredu. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun cyflawni clinigol/cynlluniau ategol a strwythurau cyflawni i lunio a gweithredu modelau gwasanaeth cynaliadwy. Dylai cynlluniau clinigol hysbysu gweithlu, ystad, adnoddau ariannol a chynllunio gwasanaethau digidol.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried ymrwymiadau strategol fel rhan o'r dull diwygiedig o gynllunio. Mae'r Cynllun Ymateb Mesurau Arbennig yn cynnwys adolygiad o Gynllunio a datblygu Fframwaith Cynllunio Mewnol.</p> <p>Roedd y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn allweddol i flaenoriaethu cynigion IMTP a'r bwriad oedd y byddai dau o'r prosiectau a gymerwyd drwy'r IMTP yn "glasbrintiau" ar gyfer datblygu offeryn ar gyfer datblygu offeryn ar gyfer dod â'r strategaeth i feddwl o ddydd i ddydd y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gan nad oedd buddsoddiad sylweddol gan IMTP mewn gwasanaethau newydd yn bosibl eleni, cynigir:</p> <p>Mae'r strategaeth gwasanaethau clinigol yn cael ei mireinio fel offeryn gweithredol o fewn datblygu gwasanaethau dermatoleg ac wroleg.</p> <p>Defnyddir yr adolygiad cyfredol o weithredu gwasanaethau fasnolaidd i lywio'r broses o fireinio'r strategaeth.</p> <p>Felly, erbyn mis Hydref 2023 bydd atodiad gweithredol, gan gynnwys defnyddio'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, wedi'i gytuno.</p>	<p>Chwarter 4 2023-24</p>	<p>Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid Exec gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gan Weithredwyr Clinigol (Meddygol, Nyrso a Therapïau).</p>

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Adrodd ar effaith mentrau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth – Cyfrwng Blaenoriaeth</p> <p>A8 Canfuom dystiolaeth gyfyngedig o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu gofal iechyd seiliedig ar werth yn weithredol i'w wasanaethau i sicrhau'r gwerth a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adrodd ar ei raglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd.</p>	<p>Bydd y dull o ymdrin â Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o ddatblygiad y Fframwaith Cynllunio Mewnol ar gyfer y sefydliad. Bydd hyn yn galluogi eglurder o'r ymrwymiad strategol a arweinir gan y Bwrdd i ddatblygu'r dull hwn yn systematig. Yn ogystal, mae darnau penodol o waith VBHC ar y gweill e.e. lymffoedema a cellulitis, methiant y galon, Hwb Diabetes tymor Hir, a arweinir gan PROM arthroplasti, Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-Frys (NEPTS), platform PROMs.</p>	<p>Rhagfyr 2023 gydag adolygiad parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio</p>

Gweithredu dulliau adfer ariannol ar frys i gryfhau'r sefyllfa ariannol – Blaenoriaeth Uchel

A9 Ym mis Ionawr 2023 mae'r Bwrdd lechyd ar y trywydd iawn gyda'i gynllun cynilo cyfredol ac mae'n araf i fwrw ymlaen â'r cynllun cynilo ar gyfer 2023-24. Dylai'r Bwrdd lechyd:

paratoi rhaglenni adfer ariannol priodol fel mater o frys ar gyfer gweddill hyn a'r flwyddyn ariannol nesaf.

Adolygu opsiynau ar gyfer dadfuddsoddi ystadau a gwasanaethau (h.y., lle nad yw gwasanaethau'n dangos effaith a chanlyniadau digonol i gleifion).

targedu buddsoddiadau digidol ar feysydd o fuddion busnes clir, h.y., lle gellir defnyddio digidol i ryddhau effeithlonrwydd gwasanaeth a/neu enillion ansawdd mewn mannau eraill.

cyflwyno adroddiadau cryfach a goruchwyliaeth o'r sefyllfa ariannol tymor canolig, strategaeth ariannol a dulliau adfer.

Mae sefyllfa ariannol sy'n cael ei herio'n sylweddol ar draws GIG Cymru. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru.

Roedd y Bwrdd lechyd yn gallu cyflawni cynllun ariannol ar gyfer 2022-23 ac wrth wneud hynny cyflawni yn erbyn y ddyletswydd adennill cyfanswm o dair blynedd. O ran blwyddyn ariannol 2023-24 mae'r tîm wedi targedu gwerth ymestyn o £30.9m gyda'r cynllun yn tybio ei fod yn cael ei ddosbarthu yn y flwyddyn o £25.2m. Roedd y systemau a oedd ar waith yn cynnwys datblygu cynlluniau o fewn ardal ac Is-adran dan arweiniad y timau Gweithredol. Yna bydd cost a chyflawnadwyedd cynlluniau a sicrhawyd gan y Prif Swyddog Ariannol ar gyfer financials a'r cynllun cyffredinol yn cael eu cymeradwyo gan yr IHC neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Yna mae'r cynlluniau'n sicr o ran ansawdd i'w cyflawni gan y Pennaeth Gwella Ariannol, graddfeydd sy'n adlewyrchu meini prawf Cylchlythyr lechyd Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio system goleuadau traffig (gwyrdd/ambr/coch).

Mae blwyddyn ariannol 2023-24 wrth ddechrau gyda gwerth isel o gynlluniau a nodwyd ar gyfer y misoedd cychwynnol bellach yn adrodd am nodi cynlluniau sy'n fwy na'r lefelau targed o £25.2m, gyda £17.3m yn wyrdd wedi'i raddio o fewn y modelu. Mae'r cynlluniau Ystadau yn cael eu hadolygu gyda dau eiddo wedi'u nodi i'w gwaredu eleni gydag un o'r eiddo wedi'i gynnwys o fewn y gwerthoedd uchod (mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu).

Mae gan y Bwrdd lechyd welededd llawn drwy adrodd perfformiad misol yng nghyfarfod y Bwrdd lechyd PFIC neu wirioneddol, yr adroddiadau ariannol gan gynnwys lefelau o arbedion a nodwyd ac ym mherfformiad y mis ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ystyried ei gynllun digidol ar gyfer 2023-24 fel rhan o'r Cynllun Blyneddol. Mae angen trafod blaenoriaethu

Cyflawn

Cyfarwyddwr
Cyllid
Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	<p>sylweddol ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy er mwyn asesu a gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Bydd y Fframwaith Cynllunio mewnol yn cynnwys cynllunio gwasanaethau digidol er mwyn nodi effeithlonrwydd gwasanaethau a manteision ansawdd fel rhan o flaenoriaethu.</p> <p>Mae digidol wedi cyflwyno prawf o werth ar gyfer Single Sign On (SSO) sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ED allu mewngofnodi i'w cymwysiadau beirniadol trwy dapio eu cerdyn adnabod a mynediad syml rhif pin. Yna mae'r cais SSO yn cymryd drosodd ac yn agor y ceisiadau'n awtomatig heb fod angen rhoi manylion mewngofnodi ar gyfer pob cais. Mae hyn yn cyflymu amser mewngofnodi pob defnyddiwr yn sylweddol gan gyfartaledd o 30 munud fesul shift sydd wedi'i fesur. Gall y cyfnod hwn gael ei ailffocysu a'i fuddsoddi mewn gofal cleifion. Yn ogystal â'r cyfle i arbed amser, mae SSO yn lliniaru'r angen am gyfrifon generig gan ddarparu amgylchedd diogel gan wella archwiliadwyedd a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau ac arfer gorau diogelu data.</p>		

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Cyflwyno cynllunio a rheolaeth ariannol cryfach i leihau'r ddibyniaeth ar hepgoriadau tendr sengl – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A10 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o ddefnydd sylweddol a chynyddol o hepgoriadau tendr sengl. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella cynllunio caffael a chryfhau rheolaethau ariannol hepgor tendr sengl.</p>	<p>Mae'r broses hepgor tendr sengl wedi'i gwella i sicrhau bod y hepgoriadau hyn yn cael eu prosesu dim ond pan fyddant yn cydymffurfio â deddfwriaeth y byddai camau o'r fath yn cael eu prosesu ac yn cynnig gwerth am arian o beidio â phrofi'r farchnad ehangach. Mae'r ddau fesur allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y broses yn cael eu llofnodi gan y Pennaeth Caffael i sicrhau cyfreithlondeb lleoliad y dyfarniad a llofnodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid (Gweithredol) i sicrhau y bydd lleoliad y dyfarniad yn cynrychioli gwerth am arian.</p> <p>Bydd y hepgoriadau tendr unigol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio am oruchwyliaeth a sicrwydd o rifau sy'n cael eu prosesu, sail ar gyfer cyfreithlondeb ystyriaethau dyfarnu a gwerth am arian.</p> <p>Fel rhan o Gynllun Ymateb Mesurau Arbennig bydd adolygiad ehangach o gaffael yn digwydd er mwyn gallu gwneud rhagor o ddysgu a gwelliannau, gan gynnwys i'r amgylchedd rheoli.</p>	Cyflawn	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Sicrhau effeithiolrwydd gwasanaethau lles staff – Blaenoriaeth Uchel</p> <p>A11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi lles staff. Fodd bynnag, nid yw'n cynnal gwerthusiad digonol ar hyn o bryd i sicrhau bod y rhain yn diwallu anghenion staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith ei wasanaethau lles staff i lywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.</p>	<p>Fel rhan o raglen datblygu diwylliant ehangach, bydd iechyd a lles gweithwyr yn cael eu hadolygu, er mwyn alinio Gwasanaethau Cefnogi Staff (SUS) â'r rhaglen ddiwylliant. Rhaglen cwmpasu gwaith sy'n digwydd yn Ch1/2 i ddatblygu rhaglen o Q3.</p> <p>Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd system o fesurau a chanlyniadau gwasanaeth yn cael ei gweithredu.</p>	Chwarter 3 2023-24	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu ac OD

Argymhelliad	Ymateb rheoli	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella perfformiad a goruchwyliaeth ariannol ar gyfer digidol ac ystadau</p> <p>A12 Mae angen sefydlu trefniadau i ddeall effaith strategaethau digidol ac ystadau, yn ogystal â dichonoldeb ariannol y strategaeth. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <p>Adolygu unrhyw fylchau ariannu yn y strategaethau digidol ac ystadau i benderfynu a ydynt yn ariannol ymarferol. Diweddarau'r pwyllgor perthnasol ar ganfyddiadau'r adolygiad dichonoldeb ariannol a sut y bydd unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli.</p> <p>Cyflwyno adroddiadau pwyllgor cyfnodol sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a gwblhawyd ond yr effaith y mae ei strategaethau digidol ac ystadau yn ei chael ar y sefydliad.</p>	<p>Bydd nifer o fecanweithiau allweddol yn cael eu cyflwyno a lle bo hynny'n bodoli, eu cryfhau i gefnogi gwell cynllunio a goruchwyllo sy'n ymwneud â digidol ac ystadau. Mae'r rhain yn cynnwys Fframwaith Cynllunio newydd a Fframwaith Perfformiad Integredig. At hynny, mae rheolaeth busnes corfforaethol a llywodraethu wedi'i adolygu ac yn unol ag ymrwymadau yn y Cynllun Ymateb Mesurau Arbennig, bydd yn cael ei ddiwygio a'i gryfhau yn ystod Ch3 2023-24. Yn unol ag egwyddorion llywodraethu da, cynhelir hunanasesiadau pwyllgorau yn flynyddol o leiaf i gynnwys cyfeiriad at strategaethau digidol ac ystadau.</p> <p>Er mai mynd i'r afael â diffygion a risgiau yw'r prawf blaenoriaeth o werth, mae gwaith mewn pocedi fforddiadwy bach yn mynd rhagddo ac yn dangos y manteision y gellir eu darparu os caiff ei raddio.</p>	<p>Rhagfyr 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol</p> <p>Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth</p>



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.